

Ruxolitinib ar gyfer trin sblenomegali sy'n gysylltiedig â chlefydau neu symptomau mewn oedolion sydd â myeloffibrosis

Mawrth 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir ruxolitinib (Jakavi) fel triniaeth bosibl ar gyfer [splenomegali](#) sy'n gysylltiedig â chlefydau neu symptomau mewn oedolion sydd â myeloffibrosis sylfaenol (a elwir hefyd yn myeloffibrosis idiopathig cronig), myeloffibrosis vera ôl-polycythaemia neu myeloffibrosis thrombocythaemia ôl-hanfodol o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os oes ganddynt afiechyd canolradd 2 neu risg uchel.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ddueg chwyddedig neu symptomau a achosir gan un o'r mathau hyn o myeloffibrosis, a bod eich meddyg o'r farn mai ruxolitinib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai ruxolitinib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd ruxolitinib nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd ruxolitinib oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae myeloffibrosis yn gyflwr prin sy'n effeithio ar fêr yr esgyrn. Ym mên yr esgyrn caiff celloedd gwaed eu gwneud. Mae meinwe craith myeloffibrosis yn cronni y tu mewn i fêr yr esgyrn ac ni chaiff y celloedd gwaed eu gwneud yn gywir. I wneud iawn am hyn, mae rhannau eraill o'r corff fel y ddueg yn dechrau gwneud celloedd gwaed. Pan fydd y ddueg yn gwneud celloedd gwaed, mae'n tyfu mewn maint a gelwir hyn yn sblenomegali. Gall hyn achosi anesmwythder yn y bol a theimlo'n llawn wrth fwyta.

Mae ruxolitinib yn gweithio drwy rwystro genyn sy'n bwysig wrth gynhyrchu celloedd gwaed. Fe'i cymerir ar ffurf tabled.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- [Gofal Lewcemia](#), 08088 101 444
- [Cymdeithas Canser Lewcemia](#), 0208 374 4821
- [Bloodwise](#) (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol), 0207 504 2200
- [MPN Voice](#) (MPD Voice yn flaenorol), 0793 468 9354
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1848-5